# Adroddiad Arolygu

**Tiny Tots Sgwâr Clytha**

**Tiny Tots**
**1-3**
**The Avenue Clytha Square**
**Casnewydd**
**NP20 2FF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/09/2023

## **Ynglŷn â** Tiny Tots Sgwâr Clytha

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Tiny Tots Premier Childcare Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Medi 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn y lleoliad a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn cael ystod eang o gyfleoedd chwarae a chânt wneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i ffrindiau ac yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn mwynhau eu swydd. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda, gan gynnig amrywiaeth ysgogol o weithgareddau a gaiff eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Maent yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau dan do ac awyr agored ar gael i hyrwyddo dysgu a datblygiad cyffredinol y plant.

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Maent yn rhoi llawer o anogaeth a chymorth i'r staff. Mae'r polisïau a'r cofnodion ar waith. Mae'r rhieni'n canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant **Da**

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o gyfleoedd chwarae hwyliog. Er enghraifft, mae'r babanod yn crwydro eu hystafell chwarae yn rhydd gan ddewis o amrywiaeth o deganau, fel drychau a ddelir â llaw a sgarffiau lliwgar tryloyw. Caiff plant o bob oed fynegi eu hunain yn hyderus. Gwrandewir arnynt, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hybu eu hunan-barch. Mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn ystyried diddordebau a syniadau'r plant, sy'n rhoi eu 'llais' wrth wraidd y lleoliad.

Mae'r plant yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant eraill ac yn meithrin cydberthnasau cynnes a charedig â'r staff. Mae'r plant yn adnabod y staff a'r drefn o ddydd i ddydd yn dda, sy'n eu helpu i deimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Maent yn cael llawer o anogaeth a chanmoliaeth gan y staff wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, gan roi'r hyder iddynt chwarae a dysgu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r oedolion a gyda'i gilydd. Maent yn hapus i siarad â ni ac roeddent yn gyffrous i ddangos eu teganau i ni. Mae'r plant yn dysgu i barchu ei gilydd a'r adnoddau, gan ddysgu rhannu a defnyddio cyfarpar yn briodol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd aelodau o'r staff yn eu hatgoffa am ymddygiad priodol. Er enghraifft, gwnaeth plentyn addasu ei chwarae ar ôl i aelod o staff ei atgoffa i fod yn ofalus gyda'r blociau pren.

Mae'r plant ar ben eu digon wrth chwarae. Cânt eu cymell i ddilyn eu diddordebau ac i ganolbwyntio am gyfnodau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom fabanod yn parablu'n hapus wrth iddynt chwarae 'bi po' a'r plant hŷn yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae wrth roi bath i'r doliau babanod. Mae'r plant hefyd yn cael budd o amrywiaeth o weithgareddau a arweinir gan oedolion. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn ymuno mewn geiriau a gweithredoedd mewn ffordd fywiog yn ystod amser canu.

Mae'r plant yn datblygu ystod eang o sgiliau wrth chwarae. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn hyrwyddo eu dysgu cyffredinol. Maent yn dysgu sgiliau hunangymorth a chânt sawl cyfle i gwblhau tasgau'n annibynnol. Mae hyn yn helpu i'w paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol a datblygu hunanhyder. Mae'r plant yn dewis gweithgareddau'n hyderus, sy'n eu cefnogi i ddatblygu sgiliau meddwl yn annibynnol a gwneud penderfyniadau eu hunain. Mae'r plant yn barod i helpu i dacluso ar ddiwedd sesiwn chwarae ac yn gwybod ble i gadw'r eitemau. Mae'r plant hŷn yn mwynhau sgwrsio â'u ffrindiau a'r staff yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd, sy'n rhoi cyfle hyfryd iddynt ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau eistedd ar gyfer y babanod yn caniatáu profiad amser bwyd cymdeithasol cystal.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cael hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn siarad yn hyderus am y gweithdrefnau hyn ac yn gwybod y bydd yr arweinwyr yn ymateb i unrhyw bryderon a godir. Mae'r staff yn dilyn arferion hylendid da. Er enghraifft, maent yn glanhau'r byrddau cyn ac ar ôl bwyta, yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn sicrhau y caiff trwynau'r plant eu sychu mewn modd amserol, sy'n lleihau'r risg o ledaenu germau. Mae bwydlen prydau gwyd a byrbrydau amrywiol, iach a chytbwys o ran maeth ar waith ac mae dŵr yfed ar gael drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn fanwl ac yn sicrhau y caiff y wybodaeth ei rhannu â'r rhieni. Caiff y cofnodion hyn eu monitro bob mis i nodi unrhyw faterion diogelu a ddaw i'r amlwg. Mae systemau cadarn ar waith i reoli alergeddau bwyd a gofynion deietegol unigol y plant.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn modd caredig ac amyneddgar. Maent yn ymatebol ac yn fagwrus, sy'n golygu bod y plant yn ddigon hyderus i fynd atynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn hybu strategaethau cadarnhaol sy'n helpu'r plant i reoleiddio eu hymddygiad a hybu hunan-barch. Gwelsom y staff yn rhoi'r strategaethau hyn ar waith yn fedrus, gan siarad yn dyner, defnyddio dulliau tynnu sylw a llawer o ganmoliaeth a gwobrau sticeri i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff bob amser yn rhoi esiampl ragorol.

Mae'r staff yn hwyluso chwarae a dysgu'r plant yn dda, ac yn cyfuno gweithgareddau a gynlluniwyd â gweithgareddau digymell sy'n canolbwyntio ar ddiddordebau a chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, cynlluniwyd i'r plant ddysgu am Ddiwrnod y Ddaear gan y staff; cyfarwyddodd y plant eu dysgu a gwnaethant archwilio pynciau fel ailgylchu a chysawd yr haul. Yn ystod gweithgaredd codi sbwriel, daeth un plentyn o hyd i gynhwysydd yfed gwag gan ddatgan yn drist, ‘‘*That’s not saving our planet!’’* Mae systemau ar waith i fonitro a chofnodi cynnydd a datblygiad y plant. Mae'r staff yn cynnal arsylwadau rheolaidd ar brofiadau chwarae'r plant ac yn defnyddio'r rhain i gynllunio camau dysgu nesaf y plant. Maent yn casglu ffotograffau o'r plant yn chwarae a samplau o'u gwaith i lunio dyddiadur dysgu i ddangos cynnydd y plant. Rhoddir hwn i'r rhieni fel rhywbeth i'w gofio pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad. Mae'r staff yn dechrau nodi anghenion ychwanegol y plant a defnyddio rhai o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Ni wnaethom glywed y staff yn siarad Cymraeg â'r plant yn ystod ein hymweliad arolygu.

## Yr Amgylchedd | Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r arweinwyr wedi cynnal asesiadau risg addas ar gyfer pob rhan o'r lleoliad. Maent yn adolygu a diweddaru'r polisïau ac asesiadau risg perthnasol gan ystyried unrhyw risgiau newydd a nodir. Caiff y wybodaeth ei throsglwyddo'n brydlon i'r staff er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau. Mae'r arferion glanhau yn adlewyrchu arferion hylendid da a rheolaeth effeithiol o heintiau. Caiff cofrestrau ar gyfer y plant a'r staff sy'n gofalu amdanynt eu cwblhau'n ddyddiol ac mae'r staff yn sicrhau mai dim ond mynediad awdurdodedig a ganiateir i'r lleoliad, a chadw cofnod o unrhyw ymwelwyr. Mae'r staff yn sicrhau bod y drysau tân ar gau ac mae giatiau ar waith i sicrhau na all y plant fynd i'r ardaloedd risg uwch heb oruchwyliaeth, fel y grisiau. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi, fel bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r teclynnau mewn modd amserol.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae ffotograffau o'r plant yn cael eu harddangos o amgylch y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad hyfryd o berthyn i'r plant. Mae arddangosfeydd deniadol o waith y plant yn adlewyrchu eu dysgu ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd i'r plant, gan gynnwys tywod, dŵr, offer dringo, ardaloedd plannu a chegin fwd. Mae ardal ychwanegol dan orchudd yn galluogi i'r plant chwarae yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Darperir ardaloedd addas i'r plant gysgu ac mae ystafell gotiau ar wahân i'r babanod.

Mae'r teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da. Mae rhai cyfarpar sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chymdeithas amlddiwylliannol fel doliau a llyfrau. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, unedau storio teganau lefel isel a phegiau cotiau wedi'u henwi ar gyfer eiddo'r plant. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael yn rhwydd er mwyn cefnogi annibyniaeth pan fyddant yn golchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr i'r plant a'u teuluoedd. Mae datganiad o ddiben clir yn rhoi'r wybodaeth gywir i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei rhedeg. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn helpu'r lleoliad i redeg yn ddidrafferth. Mae'r unigolion cyfrifol yn cadw mewn cysylltiad ac yn rhoi cymorth i'r personau â chyfrifoldeb yn y lleoliad a'r tîm.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ei fod yn hawdd cael gafael ar y dogfennau a'u bod mewn cyflwr da. Mae ffeiliau'r staff wedi'u trefnu'n dda, ac yn dangos bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r arweinwyr yn adlewyrchu ac yn gweithredu i wneud gwelliannau. Caiff yr adolygiad o ansawdd y gofal blynyddol ei ddefnyddio i lunio cynllun datblygu sy'n gosod targedau i'w gwella. Er enghraifft, nododd arweinwyr yr angen i ddatblygu gwaith ymgysylltu â rhieni. Aethpwyd i'r afael â hyn yn llwyddiannus wedi i'r rhieni gael eu gwahodd i'r lleoliad sawl gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer digwyddiadau fel te prynhawn i ddathlu Coroni'r Brenin a seremoni graddio. Mae'r arweinwyr yn dilyn eu polisi cwynion pan fyddant yn delio â chwynion ac yn cymryd y camau priodol i ddatrys materion.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf a diogelu ac maent yn cael cyfleoedd da i gael hyfforddiant ychwanegol i wella eu harferion. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth alergedd, ac mae rhai wedi cwblhau hyfforddiant ar anghenion dysgu ychwanegol a dysgu ag awtistiaeth. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn ymrwymedig ac yn mwynhau eu gwaith. Gwnaethant ddweud wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gefnogol ac yn croesawu eu syniadau.

Mae'r arweinwyr a'r tîm o staff yn rhoi gwybod i'r rhieni am ddiwrnod eu plant gan ddarparu adborth ar lafar yn ystod yr amser casglu am y gweithgareddau, byrbrydau, toiledau ac unrhyw faterion eraill. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a'r hyn y mae'r lleoliad yn ei ddarparu. Mae'r safbwyntiau a gawsom yn ystod yr arolygiad yn adlewyrchu hyn yn glir. Er enghraifft, '*'Both my children have thrived at Tiny Tots. The staff make this setting unforgettable.''* Mae partneriaethau ag asiantaethau allanol wedi'u datblygu'n dda. Mae'r arweinwyr yn gwahodd grwpiau chwaraeon, cerddoriaeth a drama i'r lleoliad i weithio gyda'r plant i wella eu profiadau dysgu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| **Argymhelliad/argymhellion** |
| Ailystyried trefnu amserau byrbryd a bwyd y babanod er mwyn gwella eto ar eu sgiliau cymdeithasol. |
| Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadrodiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/10/2023